**Cofnod o Eitem 3 ar agenda cyfarfod diweddaru Cyfarwyddwyr Hybu Cig Cymru (HCC) a gynhaliwyd am 9am drwy gyfrwng Microsoft Teams ddydd Iau 7 Hydref 2021**

| | |
|---|---|
| **Yn Bresennol:** | Cath Smith (Cadeirydd)<br>Melody Chapman, Gareth Wynn Davies, John T Davies, Rhys Davies, Jack Evershed, Rachael Madeley Davies, Prys Morgan, Emlyn Roberts a Claire Williams |
| **Y Weithrediaeth yn bresennol:** | Gwyn Howells (Prif Weithredwr)<br>Julie Davies-Jones (Ysgrifenyddiaeth)<br>Rhys Llywelyn (Rheolwr Datblygu'r Farchnad)<br>Bryan Regan (Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol)<br>Owen Roberts (Rheolwr Cyfathrebu) |

3. **Rhan ffurfiol y cyfarfod diweddaru – Trafodaeth ar wyliau Ardoll Foch yng Nghymru**

Atodiad Papur 1 – Cymerwyd y drafodaeth ar wyliau Ardoll Foch yng Nghymru fel y'i darllenwyd a chafodd ei chrynhoi gan y Prif Weithredwr.

Roedd pandemig Covid a Brexit wedi cyfrannu at brinder llafur ar draws cadwyn gyflenwi cig coch y DG, gan effeithio ar gynhyrchu, prosesu a chyflenwi.

Roedd y sector foch yn enwedig wedi dioddef yn sylweddol yn y DG,[1] gyda'r diffyg gweithwyr i brosesu da byw yn golygu bod anifeiliaid yn cael eu cadw ar y ffermydd am gyfnod hwy nag y dylent. Roedd yr amhariad hwn ar y farchnad a'r anallu i ladd/prosesu anifeiliaid ar gyfer y farchnad yn golygu costau ariannol ychwanegol i fusnesau, yn rhoi mwy o bwysau ar staff ac yn arwain at broblemau ynghylch lles anifeiliaid ar y fferm. Roedd pryderon cynyddol hefyd y gallai fod angen difa da byw gormodol ar y fferm, yn foch wedi'u pesgi nad oedd galw amdanynt, a moch bach ifanc nad oedd lle ar eu cyfer mewn uned besgi.

Roedd yr heriau hyn wedi arwain at gais i Weinidogion y DG gan y Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth (AHDB) i weithredu gwyliau ardoll foch yn Lloegr (gan osod cyfradd yr ardoll foch i sero ar gyfer cynhyrchwyr a phroseswyr) am fis (Tachwedd 2021). Cafwyd ar ddeall fod Quality Meat Scotland (QMS) wedi cytuno i alinio eu strategaeth ynghylch gwyliau ardoll foch yn unol ag AHDB er mwyn helpu i gefnogi'r diwydiant.

Dywedodd y Prif Weithredwr fod y sector foch yng Nghymru yn sylweddol wahanol i’r hyn ydyw yn Lloegr a’r Alban. Yn y ddwy wlad honno roedd cynhyrchu moch masnachol ar raddfa fawr yn gyffredin, er mwyn cyflenwi cyfleusterau prosesu mawr a'r cig wedyn yn cael ei werthu i fân-werthwyr cadwyn a marchnadoedd allforio Prydain. Yng Nghymru, roedd y sector foch yn fach mewn cymhariaeth, ac yn dibynnu'n bennaf ar gadwyni cyflenwi lleol a marchnadoedd arbenigol.

Eglurodd y Prif Weithredwr fod y Weithrediaeth wedi ystyried y mater yn fanwl a gofynnodd i'r Bwrdd ystyried yr argymhelliad a ganlyn:

**Argymhelliad**

Roedd maint bychan y sector foch yng Nghymru, a oedd yn canolbwyntio’n bennaf ar gadwyni cyflenwi lleol, yn creu elfen o wydnwch o ran yr heriau o brinder gweithwyr sy’n wynebu diwydiant moch y DG.

Roedd yn bwysig nodi nad oedd unrhyw dystiolaeth i awgrymu fod ôl-groniad sylweddol o foch ar ffermydd yng Nghymru – yn wahanol i'r sefyllfa yn Lloegr a'r Alban.

Nid oedd angen ystyried gweithredu gwyliau ardoll ond pan oedd aflonyddwch eithafol yn y farchnad.

Yn dilyn trafodaeth ac ateb cwestiynau, cytunodd y Bwrdd yn unfrydol y dylai'r argymhelliad gael ei gyflwyno i’r Gweinidog i’w ystyried.

**Llofnodwyd……………………………..**
**Cadeirydd HCC**